# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **28 Chwefror 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | H.C.Clarke, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, S.Paddison, R.Phillips, S.Pursey a/ac S.H.Reynolds |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, N.Daniel, C.Furlow-Harris a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones a/ac S.A.Knoyle |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 8 a 9 ar Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023, 22 Ionawr 2024 a 21 Chwefror 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am roi eglurder y tu allan i'r cyfarfod, mewn perthynas â £3.87m a grybwyllir ar dudalen 24 o'r adroddiad, sydd wedi'i symud yn ôl i gronfeydd wrth gefn penodol oherwydd gwaith heb ei gwblhau. Holodd yr aelodau a oedd digon o swyddogion ar gael i gwblhau'r gwaith angenrheidiol yn ystod y flwyddyn refeniw.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid mai dwy eitem oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r £3.87m a symudwyd yn ôl i gronfeydd wrth gefn; mae £2.379m yn ymwneud ag oedi wrth brynu cerbydau ailgylchu mawr, sydd wedi'i ohirio wrth i adolygiad o'r cerbydlu gael ei gynnal. Roedd swm o £700 mil wedi'i gyllidebu ar gyfer ailfodelu Gorsaf Drosglwyddo Crumlin Burrows - mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio tan 2025. Mae 12 cofnod arall yn cael eu dychwelyd i gronfeydd wrth gefn; mae heriau o ran recriwtio staff wedi bod yn ffactor cyfrannol yn enwedig yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio'r amgylchiadau a amlinellwyd, a dywedodd wrth aelodau fod taliadau atodol ar sail y farchnad wedi'u defnyddio gyda pheth llwyddiant mewn rhai gwasanaethau i fynd i'r afael â materion recriwtio staff. Mae cyllideb dros ben i fynd i'r afael â'r materion capasiti a drafodwyd gydag aelodau o'r blaen.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 30 o'r adroddiad a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn yr agenda a'r tanwariant arfaethedig o £600,000 mewn ynni, effeithlonrwydd, trawsnewid a chynlluniau wrth gefn. Holodd yr aelodau a fydd y £700 mil y nodwyd ei fod yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa llety wrth gefn i ariannu cynlluniau goleuadau effeithlonrwydd ynni yn ystod 2024/25 yn cael ei drosglwyddo fel prosiect cyfalaf neu refeniw.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid y bydd y cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa llety wrth gefn, sy'n gronfa refeniw. Caiff y prosiectau eu cyflawni fel prosiectau cyfalaf ond cânt eu hariannu drwy gronfa refeniw. Nodwyd y gellir ariannu gwariant cyfalaf drwy gronfeydd refeniw ond nid i'r gwrthwyneb. Mae dau brosiect adnewyddu goleuadau LED ar raddfa fawr wedi'u nodi yn y Ceiau a

Chanolfan Ddinesig Chastell-nedd ond nid oedd modd eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, mae cyllid wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio'r flwyddyn nesaf pan fydd y prosiectau'n cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Holodd yr aelodau pam na nodwyd y prosiectau fel prosiectau cyfalaf o'r cychwyn cyntaf a pham roedd tanwariant o'r fath.

Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio wrth aelodau fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sefydlu tîm o swyddogion a fyddai'n canolbwyntio ar feysydd fel effeithlonrwydd ynni, carbon sero-net, newid yn yr hinsawdd ac ecoleg. Cafwyd anawsterau wrth dyfu'r tîm i'r maint gofynnol. Mae nifer o staff yn ymgymryd â'r dasg o leihau costau ynni'r awdurdod, gan sicrhau bod asedau'n gweithredu mor effeithlon â phosib. Mae astudiaethau adeiladu rheolaidd yn cael eu cynnal, ac mae achosion busnes ar waith i arddangos lle gellir cael enillion ar fuddsoddiad pe bai cynlluniau cyfalaf yn cael eu datblygu. Mae llawer o waith y tîm yn fusnes fel arfer, felly nid oes côd cyllideb penodol ar gyfer y gwaith ac mae'n cael ei wneud o fewn costau cyflog, sy'n cael eu defnyddio gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd.

Gofynnodd yr aelodau a oedd digon o staff ar gael i yrru prosiectau ymlaen i leihau costau ynni.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod diffyg staff yn y tîm o hyd ond mae cyllideb a strwythur ar waith i fynd i'r afael â hyn. Ar hyn o bryd, mae dau arbenigwr technegol ac un swyddog gweinyddol yn y swydd sy'n gyfrifol am adeiladu asedau yn ogystal ag amcanion strategaeth i leihau ôl troed carbon a'r defnydd o ynni. Bu lefel wael iawn o ddiddordeb ar gyfer rhai o'r swyddi gwag ond mae cyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer y swydd Rheolwr yn fuan. Nodwyd ei bod yn heriol sicrhau pobl a chanddynt y sgiliau priodol i gyflawni amcanion y Cyngor.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 26 o'r adroddiad a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn agenda a mynegwyd pryder am y newid yn sefyllfa cronfeydd wrth gefn ysgolion. Cwestiynodd yr aelodau a fydd unrhyw ysgolion na fyddant mewn sefyllfa o ddiffyg neu a fyddai ysgolion yn ystyried colli swyddi oherwydd y sefyllfa ariannu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wrth aelodau fod ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd ariannol cyfredol ysgolion a sefyllfaoedd tebygol wrth symud ymlaen. Mae gan yr ysgolion a chanddynt ddiffyg ar hyn o bryd gynlluniau adfer ar waith.

Mae'n debygol y bydd colli swyddi yn digwydd mewn rhai ysgolion wrth symud ymlaen oherwydd y sefyllfa gorwariant ar draws y sector ysgolion cyfan; gall ysgolion ystyried colli swyddi'n wirfoddol er mwyn osgoi colli swyddi'n orfodol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd cost gyfartalog am unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd gan y Cyngor.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod cost pob adolygiad yn gysylltiedig â swm y gwaith dan sylw, ac felly nid oedd cost gyfartalog. Nodwyd bod y rhan fwyaf o adolygiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Cabinet neu Fyrddau Cabinet felly bydd aelodau'n ymwybodol o'r costau dan sylw. Bydd gan bob adolygiad achos busnes sy'n datgan y bydd y costau'n cael eu had-dalu drwy gynilion.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

<u>Monitro'r Gyllideb Cyfalaf - Chwarter 3</u>

Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad am y gwariant mewn perthynas â phrosiect Sinema Canolfan Celfyddydau Pontardawe.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod dyddiad cychwyn prosiect Sinema Canolfan y Celfyddydau Pontardawe wedi'i ohirio. Gofynnwyd am gymeradwyaeth yr aelodau i barhau â'r prosiect, oherwydd nad oedd digon o gyllid. Disgwylir i'r contractwr ddechrau ar y safle o fewn y tair wythnos nesaf a fydd yn arwain at fwy o wariant o ran gwaith dylunio a deunyddiau.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 47 o'r adroddiad a gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â £441 mil nad yw wedi'i wario eto ar Adfywio Isadeiledd Glannau'r Harbwr.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid y byddai mwy o naratif yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Mewn perthynas â'r prosiect isadeiledd mawr yng Nglannau'r Harbwr, ariannwyd hyn gan gyllid Ewropeaidd gydag arian cyfatebol drwy gyllid y Cyngor. Bydd y cronfeydd sy'n weddill yn cael eu defnyddio i setlo'r cyfrif terfynol, unwaith y cytunir arno.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 54 o becyn adroddiad yr agenda gan holi a oedd y gyllideb o £10 mil ar gyfer adnewyddu Llyfrgell Castell-nedd yn ymwneud â'r hen lyfrgell neu'r llyfrgell newydd.

Gofynnodd yr aelodau hefyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r gyllideb o £10 mil ar gyfer safle gwaith Byass.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gyllideb ar gyfer Llyfrgell Castell-nedd yn ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i'r posibilrwydd o adnewyddu hen lyfrgell Castell-nedd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod y gyllideb ar gyfer safle gwaith Byass yn ymwneud â datblygu uwchgynllun o fewn ardal ehangach Glannau'r Harbwr. Mae astudiaethau diwydrwydd dyladwy a dichonoldeb yn cael eu cynnal yn yr ardal i benderfynu beth y gellir ei gyflawni ac a oes modd cyflawni dyheadau.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 45 o'r adroddiad a mynegwyd pryder nad oedd grantiau'n cael eu defnyddio'n llawn mewn perthynas â Chynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer Ysgolion.

The Chief Finance Officer confirmed that the budget line shows a spend of 2.379m at the end of December against a budget of 2.9m. There has been a delay in some expenditure but it is expected that the budget will be fully utilised. The Director of Education, Leisure and Lifelong Learning confirmed that with reference to the Supporting Learners with Additional Learning Needs £60k spend against the 1.3m budget, works are progressing on the provision at Blaenhonddan and Ysgol Hendrefelin. There have been some delays between works being completed and invoicing.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 2023/24

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 6. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd P.Rogers**
**CADEIRYDD**